



Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

swyddfa.breifaf@senedd.cymru

6 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin

Ysgrifennaf atoch ynghylch y cofnod o'r trafodion ar 30 Tachwedd a fy ateb i gwestiwn gan Rhun ap Iorwerth AS yn dilyn fy natganiad yn rhoi'r diweddaraf am COVID-19. Roedd y cwestiwn yn gofyn am "gadarnhad bod y labordai sy'n gwneud y bulk o waith profi yng Nghymru yn gallu adnabod yr amrywiolyn yma fel ein bod ni yn cael rhybudd cynnar iawn o'r sefyllfa yma?"

Atebais gan ddweud, "mae rhai labordai ym Mhrydain ddim eto'n gallu adnabod drwy PCR yr amrywiolyn newydd yma. Felly, rŷn ni jest yn ceisio sicrhau ein bod ni'n gwybod pa labordai yw'r rheini. Wrth gwrs, mae un mawr yng Nghymru, ac mae hwnna yn y sefyllfa lle y bydden nhw yn adnabod".

Mae hwn yn ateb cymhleth ac roeddwn i eisiau sicrhau bod eglurder yn cael ei roi i'r Aelodau ynghylch fy ateb.

Pan ddywedais nad yw rhai labordai yn y DU yn gallu adnabod yr amrywiolyn newydd drwy brawf PCR, roedd hynny yng nghyd-destun labordai sy'n defnyddio llwyfannau penodol sy'n adnabod y targed gennyn-S wrth brosesu'r sampl ar gyfer prawf PCR. Mae gan yr amrywiolyn newydd fwtaniadau y gellir eu hadnabod drwy fethiant ar y targed gennyn-S sy'n arwydd da y gallai'r sampl fod yn amrywiolyn Omicron. Dim ond rhai labordai yn rhwydwaith y DU sy'n defnyddio'r llwyfannau hyn.

Dadansoddiad genomig yw'r dull diffiniol o hyd ar gyfer adnabod Omicron ac amrywiolynnau eraill. Roedd fy nghyfeiriad at labordai yng Nghymru yn cynnwys labordai GIG Cymru a'r labordy goleudy IP5 yng Nghasnewydd sy'n prosesu'r rhan fwyaf o samplau Cymru. Mae'r holl samplau positif o'r labordai hyn yn destun dadansoddiad a dilyniant genomig yn uned genomeg pathogen Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gall dilyniant genomig llawn gymryd hyd at 5 diwrnod i'w gwblhau. Er mwyn cynyddu capasiti ar gyfer canfod yn gyflymach, mae proses biobrawf arall ar gyfer dadansoddi samplau positif ymhellach a fydd yn rhoi canlyniadau o

fewn 24 awr yn mynd i gael ei defnyddio yn labordai GIG Cymru a labordy IP5. Gall y biobroffion hyn adnabod mwtaniadau Omicron.

O ystyried bod hwn yn fater sy'n gofyn am y cyd-destun i roi eglurder i Aelodau, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu trefnu i'r esboniad hwn gael ei gyhoeddi law yn llaw â'r cofnod o'r trafodion.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services